

GORCHYMYN SIR BENFRO (FREYSTROP)

(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2021

Rhoddir **HYSBYSIAD** trwy hyn fod Cyngor Sir Penfro yn cynnig gwneud Gorchymyn o dan Adran 84 a rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf"). Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn o 40mya trwy'r gyffordd fel y nodir yn yr Atodlen i'r gorchymyn hwn.

Bydd 'Gorchymyn Sir Penfro (Freystrop) (Gosod Terfyn Cyflymder 50mya) 2005' yn cael ei ddirymu, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r rhannau o'r ffordd y cyfeirir atynt yn yr atodlen i'r gorchymyn hwn.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn drafft a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn ar-lein yn <https://www.sir-benfro.gov.uk/rheoleiddio-traffig-ffyrdd>

Os hoffech wrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, dylech anfon y rhesymau dros eich gwrthwynebiad drwy gwblhau'r ffurflen adborth ar-lein, neu yn ysgrifenedig i'r islofnodedig, erbyn yr 21ain diwrnod o Fawrth 2021. Dyfynnwch: Troop-S/L

Dyddiedig y 30ain diwrnod hwn o Fehefin 2021.

Darren Thomas
Pennaeth Seilwaith
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd

Atodlen Terfyn Cyflymder o 40mya

Ffordd	Hyd
C3013 i Langwm	O'i chyffordd â'r C3007 tua'r dwyrain am hyd o 50 metr.
C3101 i Johnston	O'i chyffordd â'r C3007 tua'r gorllewin am hyd o 114 metr.
C3007 Freystrop i Ffordd Burton	O bwynt 222 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r C3013 i Langwm, i bwynt 60 metr i'r de o'r un gyffordd hon.

Datganiad o Rheswm

Mae adolygiad terfyn cyflymder wedi'i gynnal ar y C3007 yn Trooper Inn. Roedd yr adolygiad yn ystyried hanes damweiniau, data arolwg cyflymder a geometreg y ffordd. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid gostwng y terfyn cyflymder presennol i 40mya drwy'r gyffordd.





Proposed introduction of 40mph Limit through Troopers Inn Junction

Map produced on: 23 June 2021

Scale (A4 Print)

1:2000



GORCHYMYN SIR BENFRO (FREYSTROP)
(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) 2021

Mae Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor"), wrth arfer ei bwerau o dan Adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau galluogi eraill, ac yn dilyn ymgynghoriad â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn gwneud gan hynny y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff unigolyn yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder sy'n gynt na 40 milltir yr awr ar y rhannau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
2. Bydd 'Gorchymyn Sir Benfro (Freystrop) (Gorfodi Terfyn Cyflymder 50mya) 2005' yn cael ei ddi-ddymu i'r graddau y mae'n ymwneud â'r rhannau o'r ffordd y cyfeirir atynt yn yr atodlen i'r Gorchymyn hwn.
3. Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel 'Gorchymyn Sir Benfro (Freystrop) (Terfyn Cyflymder 40mya) 2021' a daw i rym ar y xxx diwrnod o Orffennaf Dwy Fil ac Un ar Hugain.

RHODDIR o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Penfro ar y xx diwrnod hwn o Orffennaf, Dwy Fil ac Un ar Hugain.

At hyn, gosodwyd **SÊL GYFFREDIN**
CYNGOR SIR PENFRO
ym mhresenoldeb:

Llofnodwr Awdurdodedig

Atodlen
Terfyn Cyflymder o 40mya

Ffordd	Hyd
C3013 i Langwm	O'i chyffordd â ffordd yr C3007 i'r dwyrain am hyd at 50 metr.
C3101 i Johnston	O'i chyffordd â ffordd yr C3007 i'r gorllewin am hyd at 114 metr.
C3007 Freystrop i Burton Road	O bwynt 222 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r C3013 i Langwm, i bwynt sy'n 60 metr i'r dde o'r un gyffordd.